**Rhif: WG39136**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rheoleiddwyr Gofal Iechyd)

Ymgynghoriad ar Reoliadau safonau'r Gymraeg drafft ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol.

Dyddiad cyhoeddi: 16 Mawrth 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 15 Mehefin 2020

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar y Rheoliadau drafft i bennu Safonau'r Gymraeg ar gyfer y cyrff canlynol:<br><br>• Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol<br>• Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br>• Y Cyngor Meddygol Cyffredinol<br>• Y Cyngor Optegol Cyffredinol<br>• Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol<br>• Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol<br>• Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal<br>• Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br>• Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br><br>Bydd y Rheoliadau hyn yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau arnynt mewn perthynas â'r Gymraeg. |
| **Sut i ymateb** | Dylech gwblhau eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar y ffurflen ymateb a'i hanfon drwy e-bost/post i'r cyfeiriad isod erbyn **15 Mehefin 2020**.<br><br>Rydym yn ymwybodol bod yr holl randdeiliaid o dan straen sylweddol a'u bod yn wynebu cyfnod o ansicrwydd oherwydd y sefyllfa bresennol o ran Coronafeirws. Byddwn felly yn adolygu'r dyddiad cau maes o law er mwyn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael cyfle teg i roi ystyriaeth lawn i'r ymgynghoriad. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Cyfeiriad:<br>Is-adran y Gymraeg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost:<br>UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru<br><br>Ffôn: 03000 256333 |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Rhagair

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a rhoi hawliau i bobl ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Mae cryfhau darpariaeth gwasanaethau Cymraeg drwy safonau'r Gymraeg yn cyfrannu'n bwysig at gyflawni'r nod hwnnw. Mae 122 corff yn cydymffurfio â'r safonau ar hyn o bryd, a cham nesaf y daith hon yw dod â chyrff sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol y sector iechyd a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol o dan y system safonau. Mae cyrff mawr eraill yn y sector iechyd, gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG, wedi bod yn cydymffurfio â safonau ers mis Mai 2019. Bydd cynnwys rheoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol o fewn y system safonau yn cryfhau a phrif ffrydio'r Gymraeg ymhellach yn y sector iechyd.

Nid yw'r rhain yn gyrff y mae pobl yn debygol o ymwneud â nhw o ddydd i ddydd, ond os digwydd bod aelod o'r cyhoedd eisiau cwyno am weithiwr iechyd proffesiynol rwy'n credu y dylent allu gwneud hynny yn eu dewis iaith. Mae'r safonau wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer y cyrff hyn, gyda ffocws ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu i aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r safonau hefyd yn ymdrin â sefyllfa gweithwyr gofal iechyd proffesiynol os ydynt yn canfod eu hunain yn destun gwrandawiad addasrwydd i ymarfer ar ryw bwynt.

Ers cael fy mhenodi'n Weinidog gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg rwyf wedi pwysleisio mai fy mlaenoriaeth yw gweld mwy o bobl yn defnyddio'r Gymraeg, ac rwy'n awyddus i ddefnyddio'r system safonau fel ffordd o gyfrannu i gyflawni'r nod hwnnw. Rwyf wedi ymrwymo i adolygu'r system safonau gyda golwg ar leihau biwrocratiaeth a chymhlethdod y system, ond cadw eglurder a hawliau defnyddwyr. Gobeithio bod y Rheoliadau hyn yn gam ymlaen yn hyn o beth.

Edrychaf ymlaen at dderbyn sylwadau rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad hwn, a byddaf yn eu hystyried cyn symud ymlaen i gyflwyno'r Rheoliadau terfynol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymeradwyo.

**Eluned Morgan AC**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru'n paratoi Safonau'r Gymraeg ('safonau') o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") sy'n rhoi hawliau gorfodadwy i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â chyrff. Mae rheoliadau sy'n pennu safonau yn cael eu cyflwyno'n raddol. Mae'r Rheoliadau drafft sy'n destun yr ymgynghoriad hwn wedi'u paratoi ar gyfer y naw corff canlynol:

- Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

1.2 Mae'r cyrff a restrwyd uchod (ac eithrio'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol) yn rheoleiddio gwaith llawer o weithwyr iechyd proffesiynol yn y DU. Mae'n rhaid i unrhyw un sydd am weithio yn y proffesiynau rheoleiddiedig hyn gofrestru gyda'u rheoleiddiwr perthnasol sy'n cadw cofrestr gyhoeddus o ymarferwyr. Ni fyddent yn cael gweithio os na fyddent ar y gofrestr, ac mae'n rhaid iddynt dalu tâl aelodaeth i'r rheoleiddwyr er mwyn cael bod ar y gofrestr. Mae'r cyrff rheoleiddio hyn yn ymdrin â chwynion am waith gweithwyr iechyd proffesiynol, ac yn cynnal gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer.

1.3 Mae gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol swyddogaeth wahanol i'r cyrff eraill, sef goruchwylio'r cyrff rheoleiddio eraill, a chyhoeddi canllawiau ar reoleiddio. Gall adolygu penderfyniadau a wnaed gan gyrff rheoleiddio am addasrwydd ymarferwyr i ymarfer. Mae ganddo'r pŵer i apelio yn erbyn penderfyniadau yn yr Uchel Lys os yw'n ystyried bod penderfyniadau a wnaed gan y cyrff rheoleiddio'n annigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

1.4 Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi Safonau ar gyfer y naw corff, ac yn gwneud y Safonau'n berthnasol iddynt hwy'n benodol. Mae hyn yn golygu bod gan y Comisiynydd (yn amodol ar un eithriad mewn perthynas â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol) awdurdod i roi hysbysiad cydymffurfio i'r cyrff yn gofyn iddynt gydymffurfio â'r Safonau hynny. Ni fydd gwneud y Rheoliadau hyn ynddo'i hun yn gosod unrhyw ddyletswyddau ar y cyrff. Unwaith y bydd y Rheoliadau wedi'u gwneud ar ôl cael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") fydd yn dewis pa safonau i'w gosod ar gyrff unigol, a bydd yn gwneud hyn drwy gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i'r corff. Mae gan y Comisiynydd hyblygrwydd wrth ddewis pa safonau y mae'n rhaid i gorff gydymffurfio â nhw, ac i ba raddau, ac erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i'r corff gydymffurfio â safon. Mae'r Comisiynydd yn nodi'r wybodaeth honno mewn hysbysiad cydymffurfio

a gyflwynir i’r corff.

1.5 Bydd corff yn gallu herio gofyniad i gydymffurfio â safon benodol ar sail a yw’n rhesymol a chymesur. Yn y lle cyntaf, bydd corff yn gallu cyflwyno her i’r Comisiynydd, gan ofyn iddo benderfynu a yw’r gofyniad arno i gydymffurfio â safon benodol yn yr hysbysiad cydymffurfio yn rhesymol a chymesur. Os nad ydynt yn gallu datrys yr anghydfod, mae yna lwybr apelio ar gael i Dribiwnlys y Gymraeg, ac wedyn i’r Uchel Lys (ar gwestiwn y gyfraith).

1.6 Rydym eisoes wedi gwneud chwe set o Reoliadau. Yn sgil y rheini mae 122 o gyrff wedi derbyn hysbysiadau cydymffurfio gan y Comisiynydd ac yn cydymffurfio â’r safonau ar hyn o bryd. Roedd y set ddiwethaf o reoliadau’n pennu safonau ar gyfer byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau’r GIG, Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned, a Chynghorau Iechyd Cymuned. Bydd gwneud y Rheoliadau hyn ar gyfer y rheoleiddwyr gofal iechyd yn galluogi mwy o gyrff sy’n gysylltiedig â’r sector iechyd i symud o’u Cynlluniau Iaith cyfredol i fod o dan y system safonau.

1.7 Mae’r 9 corff yma’n darparu gwasanaethau Cymraeg i’r cyhoedd yn unol â’u Cynlluniau Iaith a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Cynlluniau wedi llwyddo i gael y cyrff hyn i feddwl am, cynllunio, a darparu gwasanaethau Cymraeg. Mae systemau adrodd yn gysylltiedig â’r Cynlluniau hefyd yn golygu eu bod wedi arfer cael eu darpariaeth Gymraeg wedi’i monitro. Fodd bynnag, mae symud i’r system safonau, a gorfod darparu gwasanaethau Cymraeg o ganlyniad i ddyletswyddau cyfreithiol yn hytrach nag ymrwymiadau mewn Cynllun yn golygu bod gan wasanaethau Cymraeg sylfaen gryfach yn y cyrff hyn - a bod gan y cyhoedd hawliau i gael y gwasanaethau hynny. Mae yna system orfodi gryfach yn gysylltiedig â’r system safonau hefyd.

1.8 Mae’r safonau hyn wedi’u llunio gyda’r nod o greu dyletswyddau y gall y Comisiynydd ddewis o’u plith fel rhai rhesymol a chymesur i bob corff gydymffurfio â nhw. Mae’r Safonau yn datgan yn glir i’r cyhoedd pa wasanaethau Cymraeg y gallant eu derbyn gan y cyrff ac yn datgan yn glir i’r cyrff beth y mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg.

## 2. Cefndir

2.1 Rhwng Gorffennaf a Hydref 2016 cynhaliwyd ymgynghoriad ar Reoliadau Safonau Cymraeg drafft i gyrff y sector iechyd. Yn ogystal â phennu safonau ar gyfer cyrff fel byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau’r GIG, a chynghorau iechyd cymuned, roedd y Rheoliadau drafft hynny’n cynnig diwygio Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 4) 2016 er mwyn cynnwys y cyrff a restrwyd yn 1.1. Cafodd Rheoliadau Rhif 4 eu gwneud ym mis Mawrth 2016 ac roeddent yn berthnasol i Dribiwnlysoedd Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg. Byddai’r diwygiad arfaethedig wedi golygu y byddai’r safonau yn Rheoliadau Rhif 4 wedi bod yn berthnasol i’r Rheoleiddwyr yn benodol.

2.2 Ar ôl dadansoddi ac ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad, penderfynodd Gweinidogion Cymru na fyddent yn dilyn y polisi o ychwanegu’r cyrff at Reoliadau Rhif 4, ac y byddent yn paratoi Safonau penodol ar wahân ar eu cyfer yn lle hynny.

2.3 Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ymgynghori ar y Rheoliadau sydd wedi'u paratoi mewn modd pwrpasol gan ystyried swyddogaethau a strwythurau y cyrff Rheoleiddio hyn, a pha wasanaethau maent yn eu darparu i'r cyhoedd. Rydym yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y safonau drafft, ac yn y defnydd y mae'r cyrff hyn yn ei wneud o'r Gymraeg. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor tan 15 Mehefin 2020 i sicrhau bod yr holl randdeiliaid â diddordeb yn cael digon o gyfle i ddweud eu dweud am y Rheoliadau.

## 3. Y rheoliadau safonau'r Gymraeg drafft

3.1 **Safonau cyflenwi gwasanaethau**

Mae'r safonau cyflenwi gwasanaethau'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau i berson arall. Eu bwriad yw hyrwyddo neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar briodolrwydd y safonau cyflenwi gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau drafft.

Nid yw'r ddogfen ymgynghori hon yn trafod pob safon unigol, ond mae adrannau 3.2-3.4 isod yn nodi rhai materion a allai fod o ddiddordeb arbennig i randdeiliaid. Mae'r Rheoliadau drafft yn cynnwys safonau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau canlynol:

- Gohebiaeth
- Galwadau ffôn
- Cyfarfodydd
- Digwyddiadau cyhoeddus
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- Hysbysiadau swyddogol
- Arddangos deunydd yn gyhoeddus
- Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau a ffurflenni
- Achosion cyfreithiol
- Gwefannau a gwasanaethau ar-lein
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Codi ymwybyddiaeth am wasanaethau Cymraeg
- Hunaniaeth gorfforaethol

3.2 Dylai rhanddeiliaid nodi mai prif amcan polisi y safonau cyflenwi gwasanaethau yn Atodlen 1 yw sicrhau bod aelodau unigol o'r cyhoedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â'r cyrff hyn, yn arbennig wrth wneud cwyn, cael gwybodaeth am sut i gwyno, neu gael gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl gan weithiwr iechyd proffesiynol. Yn achos llawer o safonau cyflenwi gwasanaethau felly, dim ond pan fo'r cyrff yn darparu gwasanaethau i "unigolyn" y maen nhw'n berthnasol. Mae Rheoliad 1 yn diffinio "*unigolyn*" fel "*person naturiol sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac yn gweithredu yn ei enw ei hun ond nid yw'n cynnwys un sydd wedi cofrestru sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel un sydd wedi cofrestru"*. Mae hyn yn golygu na fydd llawer o'r Safonau yn berthnasol pan fydd un sydd wedi cofrestru yn ymdrin â'r corff yn rhinwedd ei swydd fel un sydd wedi cofrestru. Un sydd wedi cofrestru yw person sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sydd wedi ei gofrestru â chorff neu'n gwneud cais i fod wedi ei gofrestru â chorff

3.3 Yn eu hymatebion i ymgynghoriad 2016, mynegodd rhai o'r cyrff Rheoleiddio bryder am oblygiadau ariannol gorfod darparu gwasanaethau Cymraeg i'w hunigolion cofrestredig. Mae hyn, ynghyd â chynnwys eu Cynlluniau Iaith cyfredol, wedi ein

harwain i baratoi Safonau sydd ond yn berthnasol mewn amgylchiadau cyfyngedig pan fo'r corff yn ymdrin â'r rhai sydd wedi cofrestru neu gorff corfforaethol. Mae'r ffocws yn y rhan fwyaf o safonau ar sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r cyrff. Mae'r safon ei hun yn egluro pwy sy'n gallu defnyddio gwasanaeth Cymraeg. Er enghraifft, mae safon 1 yn berthnasol i ohebiaeth a dderbynnir gan 'bersonau' sy'n cynnwys unigolion, rhai sydd wedi cofrestru, a chyrff corfforaethol. Mewn achosion eraill, cyfeirir yn benodol at rai sydd wedi cofrestru – gweler y safonau sy'n ymwneud ag achosion cyfreithiol (safonau 22 i 25) er enghraifft.

3.4 Oherwydd natur y cyrff hyn rydym wedi llunio safonau cyflenwi gwasanaethau penodol sy'n ymwneud ag **achosion cyfreithiol** (safonau 22-25). Mae'n bwysig nodi bod adran 22 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru. Fel yn achos gwrandawiadau tribiwnlys a gynhaliwyd gan y rhai sy'n destun Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016, mae gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a gynhelir gan y cyrff hyn yn cael eu hystyried fel achosion cyfreithiol a byddent yn dod o dan y ddarpariaeth a wnaed yn adran 22 o Ddeddf 1993. Mae safonau 22-25 yn y rheoliadau drafft wedi'u paratoi i ategu'r hawl honno a sicrhau y byddai'r rhai sydd wedi cofrestru yn gallu defnyddio'r Gymraeg gydol y broses sensitif a phersonol hon. Byddai'r safonau'n galluogi'r rhai sydd wedi cofrestru i gyflwyno dogfennau a sylwadau ysgrifenedig yn Gymraeg, ac yn gosod dyletswydd ar y rheoleiddwyr i beidio â thrin dogfennau Cymraeg yn llai ffafriol na rhai Saesneg. Dim ond ar gyfer siarad Cymraeg y mae'r ddarpariaeth yn Neddf 1993 yn darparu, felly byddai'r safonau hyn yn galluogi un sydd wedi cofrestru i gyflwyno dogfennau Cymraeg. Mae Safon 23A hefyd yn gwneud darpariaeth i alluogi un sydd wedi cofrestru i ddefnyddio'r Gymraeg pe cynhelid y gwrandawiad addasrwydd i ymarfer yn Lloegr. Cafodd hyn ei gynnwys gan nad yw rhai Rheoleiddwyr yn cynnal gwrandawiadau yng Nghymru. Pe bai'r un sydd wedi cofrestru yn dod o Gymru ac yn canfod ei hun yn destun gwrandawiad yn Lloegr, ni fyddai'n dod o dan ddarpariaethau Deddf 1993. Ni fydd y Comisiynydd yn gallu gosod Safonau sy'n ymwneud ag achosion cyfreithiol ar yr Awdurdod Safonau Proffesiynol gan nad yw'n cynnal achosion cyfreithiol.

3.5 Rydym wedi ystyried bod y cyrff hyn yn gweithredu ledled y DU. O ganlyniad, rydym wedi nodi mai dim ond pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu yng Nghymru y gall rhai o'r safonau fod yn berthnasol. Er enghraifft, safonau ynghylch cyfarfodydd (safonau 8-12), safonau ynghylch arddangos deunydd yn gyhoeddus (safonau 16-17), a safonau ynghylch hysbysiadau (safonau 29-31). Nid yw'r Safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir, ffurflenni a dogfennau wedi'u cyfyngu i ddeunydd a gynhyrchwyd yn benodol ar gyfer unigolion yng Nghymru. Maent yn berthnasol i ddeunydd sydd wedi'i gynhyrchu ar gyfer unigolion yng Nghymru a thu hwnt. Fodd bynnag, ni fyddai'n rhaid dosbarthu'r fersiwn Gymraeg y tu allan i Gymru (gweler paragraff 21 o Atodlen 1).

### 3.6 Safonau llunio polisi

Mae safonau llunio polisi yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff ystyried pa effaith y byddai penderfyniadau polisi yn eu cael ar allu unigolion i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym yn

awyddus i weld safonau llunio polisi yn berthnasol yn benodol i'r holl gyrff y mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb drostynt gan ei fod yn ffordd o geisio sicrhau bod ffactorau yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu prif ffrydio drwy bolisïau'r cyrff. Rydym yn cynnig felly bod naw safon llunio polisi yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau (safonau 34-42).

Bydd y safonau sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff ystyried effeithiau eu polisïau newydd neu ddiwygiedig ar y Gymraeg, ac yn gosod dyletswyddau penodol a ddaw i rym pan fyddant yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori neu'n gwneud gwaith ymchwil.

3.7 **Safonau gweithredu**

Mae corff yn gallu herio safon sydd wedi'i gosod arno ar y sail nad yw'r safon yn rhesymol neu'n gymesur iddo gydymffurfio â hi. Wrth greu'r safonau drafft, rhoddwyd ystyriaeth ofalus felly i strwythurau a swyddogaethau'r cyrff dan sylw er mwyn sicrhau bod yr amrywiaeth o safonau'n darparu safonau i'r Comisiynydd sy'n debygol o fod yn rhesymol a chymesur i'r corff gydymffurfio â nhw. Yn achos safonau gweithredu, sy'n ymdrin â defnydd mewnol o'r Gymraeg gan gyrff yn gyffredinol, roedd rhaid ystyried hefyd ble mae'r cyrff DU gyfan wedi'u lleoli a'u lefelau staffio cyfredol.

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol yw'r unig un o'r cyrff hyn sydd â swyddfa yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae gan y corff swyddfa fechan yng Nghaerdydd mewn bloc swyddfa a rennir, heb unrhyw dderbynfa ac nid yw'r swyddfa ar agor i'r cyhoedd fel arfer. Mae mwyafrif llethol y staff yn gweithio mewn swyddfeydd eraill y tu allan i Gymru. Nid oes gan yr wyth corff arall swyddfa yng Nghymru. Daeth yn amlwg hefyd mai ychydig o staff gydag unrhyw sgiliau Cymraeg sydd gan y cyrff hyn. Y canlyniad polisi oedd yn cael blaenoriaeth wrth ddatblygu'r safonau gweithredu felly oedd ceisio annog y cyrff hyn i gynyddu eu gallu mewn perthynas â sgiliau Cymraeg.

Mae pedair safon gweithredu wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau (safonau 43-45). Mae'r safonau hyn yn gosod dyletswyddau ar y cyrff i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg eu staff, ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff asesu a oes angen sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu swyddi newydd neu swyddi gwag. Y sail ar gyfer cynnwys y safonau hyn yw gosod dyletswyddau ar y cyrff i ystyried y Gymraeg wrth gynllunio eu gweithlu a fydd yn arwain gobeithio at roi'r cyrff mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr gwasanaethau yn y dyfodol.

3.8 **Safonau ynghylch cadw cofnodion a safonau sy'n ymdrin â materion ategol**

Paratowyd chwe safon yn y categorïau hyn (safonau 46-51). Mae nifer y safonau cadw cofnodion a materion ategol wedi'u lleihau o gymharu â rheoliadau Rhif 4 er mwyn lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r system safonau i'r cyrff hyn. O dan y safonau hyn bydd gofyn i'r cyrff gadw cofnod o nifer y cwynion a gyflwynwyd iddynt ynghylch cydymffurfio â safonau, a chadw cofnod o sut mae swyddi newydd a swyddi gwag yn cael eu hysbysebu mewn perthynas â sgiliau Cymraeg. O dan eu safonau ategol, bydd hi'n ofynnol i'r cyrff gynhyrchu gwahanol ddogfennau hefyd,

gan gynnwys Adroddiad Blynyddol. Maent wedi ymrwymo i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol o dan eu Cynlluniau Iaith eisoes.

## 4. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

4.1 Fel rhan o’r ymgynghoriad blaenorol ar safonau drafft ar gyfer y sector iechyd yn 2016, gofynnwyd i’r cyrff a oedd yn destun y Rheoliadau hyn gyflwyno gwybodaeth i alluogi Llywodraeth Cymru i baratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â’r Rheoliadau pan gaent eu gosod yn y Cynulliad.

4.2 Mae yna wahaniaethau sylweddol rhwng y Rheoliadau drafft sy’n destun yr ymgynghoriad hwn a’r hyn a gynigiwyd yn ymgynghoriad 2016. Rydym felly’n gofyn i’r cyrff ystyried y Rheoliadau drafft yr ymgynghorir arnynt yn awr, ac i gyflwyno gwybodaeth newydd. Pwrpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw helpu Gweinidogion Cymru i ystyried effaith rheoliadau arfaethedig ac ystyried costau a manteision pob opsiwn sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi. Mae hefyd yn fodd o gyflwyno’r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol polisïau ar gyfer craffu.

4.3 Gofynnir i’r naw corff sy’n destun y rheoliadau drafft ateb y cwestiynau a welir yn Atodiad B, isod. **Nid yw Atodiad B yn berthnasol i rhanddeiliaid eraill.**

**ATODIAD A:**

| | |
|---|---|
| **Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad** | Eich enw: |
| | Sefydliad (lle bo’n berthnasol): |
| | e-bost / rhif ffôn: |

**Cwestiwn 1**: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau cyflenwi gwasanaethau a gynigir yn y rheoliadau?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2**: Mae Rhan 3 o Atodlen 1 i’r Rheoliadau yn cynnwys dehongliadau ar gyfer rhai o’r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Mae paragraffau 16-37 yn egluro sut mae rhai o’r safonau’n gweithio ac ym mha amgylchiadau y maent yn berthnasol. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dehongliad o’r safonau a nodwyd yn Rhan 3?

**Cwestiwn 3:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau llunio polisi a gynigir yn y rheoliadau?

**Cwestiwn 4**: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau gweithredu a gynigir yn y rheoliadau?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5**: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau cadw cofnodion a'r safonau yn ymdrin â materion ategol a gynigir yn y rheoliadau?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6**: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru'r effeithiau negyddol?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7**: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 8**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgyngoriadau yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych fod eich ymateb yn aros yn ddienw, ticiwch yma :

**ATODIAD B**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Asesiad Effaith Rheoleiddiol o reoliadau arfaethedig safonau'r Gymraeg.

## Cyflwyniad

Gall Asesiad Effaith Rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru i ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati.
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwyso a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi, ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n derbyn gwybodaeth fanwl a chywir yn yr ymatebion i'r holiadur isod, er mwyn i ni fod yn y sefyllfa orau bosibl i ddarparu gwybodaeth lawn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel rhan o'r broses o wneud safonau drwy is-ddeddfwriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y gellir ei ddarllen yn llawn yma: https://llyw.cymru/cod-asesiad-effaith-rheoleiddiol-gweinidogion-cymru-ar-gyfer-is-ddeddfwriaeth

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at Is-adran y Gymraeg: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

**Enw'r corff**: ____________________________________________

Wrth ateb cwestiynau 1 i 7 isod, nodwch y canlynol:

- Dylech nodi cost aelod(au) staff mewn ffigurau yn hytrach na bandiau cyflog eich corff
- Os yw aelod o staff yn gweithio ar draws gwahanol gategorïau o safonau nodwch y gost **unwaith yn unig**
- Dylai'r holl gostau fod i'r £'000 agosaf
- Yng nghwestiynau 3 i 7 rydym angen gwybodaeth am unrhyw gostau **ychwanegol** sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r safonau, o gymharu â chostau cydymffurfio â'ch Cynllun Iaith cyfredol.
- Efallai y byddwch angen defnyddio eich adnoddau cyfredol (gan gynnwys adnoddau staff) mewn ffordd wahanol er mwyn cydymffurfio â'r safonau. Er na fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â hyn o bosibl, efallai y bydd yna gostau cyfle (gan nad yw'r adnoddau ar gael mwyach ar gyfer defnydd amgen/blaenorol). Dylai'r costau cyfle hyn gael eu hadlewyrchu yn eich ymateb (er enghraifft, drwy amcangyfrif gwerth amser staff).
- Nodwch yn y blychau sylwadau o dan gwestiynau 3 i 7 a ydych yn disgwyl mai costau pontio neu gostau parhaus fydd unrhyw gostau ychwanegol sydd wedi'u nodi
- Gallwch nodi unrhyw gyfleoedd a nodwyd ar gyfer arbed costau o ganlyniad i gydymffurfio â'r safonau yn y blychau sylwadau hefyd.

**1. Oes yna fanteision i'r corff o gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a gynigir yn y ddogfen hon?**

| | |
|---|---|
| Oes | |
| Nac oes | |

Os oes, beth yw'r manteision?

| Math o fantais | Disgrifiad o fantais cydymffurfio â'r safonau arfaethedig |
|---|---|
| Mantais Economaidd | |
| Mantais Gymdeithasol | |

| | |
|---|---|
| Mantais Amgylcheddol | |
| Mantais Ieithyddol | |
| Arall – byddwch mor benodol â phosibl | |

**2. Beth yw cost flynyddol cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol?**

| | Cost |
|---|---|
| Costau cydymffurfio â'r Cynllun Iaith (ni ddylid cynnwys costau staff) | |

**Rhagor o fanylion am sut y cyfrifwyd y gost:**

| |
|---|
| |

## 3. Costau Staffio

Nodwch y costau staffio sy'n gysylltiedig â chyflawni ymrwymiadau eich Cynllun Iaith cyfredol, ac unrhyw gostau staffio ychwanegol yn sgil gorfod cydymffurfio â'r safonau a nodir yn y Rheoliadau sy'n destun yr ymgynghoriad:

| |
|---|
| |

## 4. Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gellir gweld y safonau cyflenwi gwasanaethau yn Atodlen 1 o'r rheoliadau drafft.

**A yw'r dyletswyddau yn y safonau cyflenwi gwasanaethau drafft yn debygol o gael effaith ar eich adnoddau neu'r ffordd rydych chi'n defnyddio'r adnoddau hynny?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | |
| Nac ydynt | |

| | Cost (i'r £'000 agosaf) |
|---|---|
| Cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau drafft | |

**Rhagor o fanylion** (er enghraifft, a oes safonau cyflenwi gwasanaethau penodol yn debygol o greu costau ychwanegol i'ch sefydliad, sut rydych wedi amcangyfrif y gost ychwanegol ac ym mha flwyddyn (blynyddoedd) ydych chi'n disgwyl i'r costau ddigwydd?)

| |
|---|
| |

**5. Safonau llunio polisi**

Gellir gweld y safonau llunio polisi yn Atodlen 2 i'r rheoliadau drafft.

**A yw'r dyletswyddau yn y safonau llunio polisi yn debygol o gael effaith ar eich adnoddau neu'r ffordd rydych chi'n defnyddio'r adnoddau hynny?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | |
| Nac ydynt | |

| | Cost (i'r £'000 agosaf) |
|---|---|
| Cydymffurfio â'r safonau llunio polisi | |

**Rhagor o fanylion**

| |
|---|
| |

**6. Safonau gweithredu**

Gellir gweld y safonau gweithredu yn Atodlen 3 i'r rheoliadau drafft.

**A yw'r dyletswyddau yn y safonau gweithredu yn debygol o gael effaith ar eich adnoddau neu'r ffordd rydych chi'n defnyddio'r adnoddau hynny?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | |
| Nac ydynt | |

| | Cost (i'r £'000 agosaf) |
|---|---|
| Cydymffurfio â'r safonau gweithredu | |

**Rhagor o fanylion**

| |
|---|
| |

| |
|---|
| |

## 7. Safonau cadw cofnodion a safonau ymdrin â materion ategol

Gellir gweld y safonau cadw cofnodion yn Atodlen 4 o'r rheoliadau drafft a'r safonau ymdrin â materion ategol yn Atodlen 5.

**A yw'r dyletswyddau yn y safonau cadw cofnodion a'r safon yn ymdrin â materion ategol yn debygol o gael effaith ar eich adnoddau neu'r ffordd rydych chi'n defnyddio'r adnoddau hynny?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | |
| Nac ydynt | |

| | Cost (i'r £'000 agosaf) |
|---|---|
| Cydymffurfio â'r safonau cadw cofnodion a'r safonau ymdrin â materion ategol | |

**Rhagor o fanylion**

| |
|---|
| |